

## **Bwletin Awdurdod S4C - Mis Hydref 2004**

### **CYFARFOD AGORED – Y FFATRI BOP, PORTH, Y RHONDDA**

Fe gynhaliodd yr Awdurdod Gyfarfod Agored ar nos Iau, 28 Hydref 2004 yn y Ffatri Bop, Porth. Bu 15 aelod o'r cyhoedd yn bresennol. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Elan Cross Stephens, Cadeirydd S4C, a bu'r Prif Weithredwr, Huw Jones, hefyd yn cymryd rhan yn y drafodaeth. Ymhlith y materion a drafodwyd oedd:

### **Ffilmiau**

Cyfeiriwyd at lwyddiant Hedd Wyn a gofynnwyd a oedd yna 'blockbuster' arall o dan sylw, o bosibl ar Owain Glyndwr. Soniodd Huw Jones fod pobl wedi cynnig gwneud ffilm am Owain Glyndwr am beth amser. Y drafferth oedd bod gwneud ffilm epic yn fusnes drud ac roedd hefyd angen sgript llawn dychymyg. O ran Hedd Wyn, nid ffilm am fardd yn unig oedd hon, roedd yna stori dda iawn ynghlwm iddo. Yr oedd S4C yn ceisio gwneud un neu ddwy ffilm pob blwyddyn a thra dymunwyd gwneud mwy roedd y sefyllfa ariannol yn gwahardd hyn.

### **Ffilmiau dros y Nadolig**

Soniodd aelod arall o'r gynulleidfa ei fod bob blwyddyn yn edrych ymlaen at weld ffilm fawr y Nadolig, a phob blwyddyn yn cael ei siomi. Ei deimlad oedd bod y sgriptwyr a'r actorion yn ymdrechu'n rhy galed ac yn ceisio bod yn rhy glyfar. Roedd Huw Jones yn flin i glywed y farn a fynegwyd ond gobeithiodd yn fawr y byddai ffilm y Nadolig eleni – sef, *C'mon Midffild* – yn cael ei fwynhau gan bawb fyddai'n ei wyllo.

### **Wynebau Cyfarwydd**

Awgrymwyd bod yr wynebau oedd yn ymddangos ar S4C i'w gweld yn rhy aml. Cydnabuwyd bod hwn yn sylwad yr oedd y Sianel yn ei glywed o bryd i'w gilydd. Er hynny, roedd mwy o bobl ar gael o flaen y sgrin ar S4C nag erioed o'r blaen. Pan ddechreuodd y BBC gwneud rhaglenni Cymraeg ar gyfer y teledu, dim ond chwe pherson oedd ar gytundeb; nawr yr oedd yna ganiau o bobl wedi'u cytundebu i ymddangos mewn rhaglenni Cymraeg. Cydnabuwyd bod disgwyliadau'r gynulleidfa'n codi'n barhaol ac yr oedd yn wir pethau yr oedd yn rhaid i S4C fod yn ofalus ohonynt. Er enghraifft, nid oedd actorion a oeddynt yn ymddangos mewn operâu sebon Saesneg yn cael perfformio mewn rhaglenni eraill ar yr un pryd. Yn ddelfrydol, byddai S4C yn dymuno cyrraedd at yr un fath o sefyllfa.

Aeth Elan Closs Stephens ymlaen i sôn bod y BBC a S4C yn gweithredu i geisio meithrin talent newydd. Un o'r ffyrdd yr oedd S4C yn gwneud hyn oedd i gynnig pecyn o ysgoloriaethau i alluogi pobl i fynd i wahanol colegau cerddoriaeth a drama, ac ati, yn y gobaith y byddent yna'n dod yn ôl i berfformio ar raglenni S4C. Cydnabuwyd gwerth yr ysgoloriaethau yr oedd S4C yn eu cynnig ond tynnwyd sylw hefyd at y sefyllfa parthed Planed Plant, lle'r oedd cyflwynwyr weithiau yn cyflwyno rhaglen yr oeddynt hwy eu hunain yn ymddangos ynddi a theimlwyd bod hyn yn sefyllfa anffodus. Aethpwyd ymlaen i awgrymu bod angen mwy o ddarpariaeth ar gyfer pobl yn eu harddegau ac ugeiniau cynnar. Awgrymwyd bod rhaglenni megis *Bob a'i Fam a 9 tan 9* yn hen ffasiwn ac yn anaddas ar gyfer pobl ifanc. Oni fyddai'n bosibl i arbrofi gyda rhaglenni newydd ar S4C2 a rhoi cynnig i dalent newydd i ddod i'r amlwg.

Cydnabuodd Huw Jones y pwyntiau wedi'u gwneud a soniodd mai pobl ifanc oedd y garfan fwyaf anodd i'w cyrraedd ar gyfer pob darlledwr. Rhaid dweud bod arian eto yn ffactor yn yr hyn yr oedd S4C yn gallu ei wneud, er enghraifft, yr oedd cyllideb BBC3 yn unig yn fwy na'r holl gyllideb oedd gan S4C ar gael iddi. Ni chredwyd felly ei bod hi'n bosibl i S4C fedru gwario llawer ar bethau nad oedd yn cyrraedd y prif wasanaeth. Er hynny, byddai Huw Jones yn mynd â'r sylwad parthed cyflwynwyr Planed Plant yn ôl i S4C gydag ef ac edrych ar y sefyllfa, oherwydd ni ddylai'r fath hyn o beth ddigwydd

### **Wedi 7/Pnawn Da a'r Gymuned**

Teimlwyd tra bod Wedi 7 a Pnawn Da â rôl wrth fynd i mewn i'r gymuned nid oedd y sefyllfa'n un digon da o ran adlewyrchu'r gwahanol ardaloedd yng Nghymru. Yn ogystal, soniwyd nad oedd y cyflwynwyr yn y rhaglenni hyn yn ddigon diddorol ac nid oedd yna ddigon o naws yn y stiwdio. Nododd Huw Jones y pwyntiau olaf hyn a soniodd y byddai'n gwneud yn siwr bod y Cyfarwyddwr Rhaglenni yn ymwybodol ohonynt.

Aethpwyd ymlaen i awgrymu y dylai S4C wneud mwy o ran darlledu cymunedol a galluogi pobl megis, grwpiau cymunedol, ysgolion, ac ati i ymddangos ar y sgrin. Ymatebodd Huw Jones trwy ddweud nid oedd yn siwr mae prif wasanaeth S4C oedd y lle i bobl ymarfer eu crefft. Prif swyddogaeth S4C oedd i ddarparu gwasanaeth teledu ar gyfer Cymru gyfan ac roedd yn rhaid i'r gwasanaeth hwnnw fod yn deledu o safon. Er hynny, soniodd fod S4C yn gwneud tipyn o ran ei gweithgareddau yng nghymunedau Cymru a soniodd am bethau megis taith Groto Sion Corn, Taith Popty, ac ymdrechion i bartneru gyda chymunedau. Nodwyd yr hyn a ddywedwyd ond soniwyd taw'r pwynt oedd yn cael ei wneud oedd y dylai bethau ddod i fyny at S4C o'r cymunedau ac nid bod S4C yn dod i'r cymunedau. Ymatebodd Huw Jones ymhellach drwy sôn bod hanner o'r cwmnïau cynhyrchu wedi'u lleoli tu allan i Gaerdydd ac roedd eu cynnyrch nhw felly yn dod allan o wahanol gymunedau yng Nghymru.

## **Dwy Sianel**

Holwyd a fyddai S4C yn gallu cynnal dwy sianel o safbwynt ariannol. Soniodd Elan Closs Stephens taw'r unig beth oedd yn cael ei ddarlledu ar S4C2 ar hyn o bryd oedd y Cynulliad, roedd gweddill y gofod yn cael ei werthu'n fasnachol. Roedd popeth ar analog yn cael ei ddarlledu'n 'simulcast' ar y sianel Digidol. Felly, o safbwynt S4C Digidol, yr hyn a siaredir amdano oedd oriau'n ychwanegol i'r hyn oedd yn cael ei ddarlledu ar analog yn hytrach na dwy sianel. Yr oedd yna gostau ynghlwm â darlledu ar analog a digidol ar yr un pryd, a phan byddai analog yn cael ei ddiffodd o gwmpas 2012, fe fyddai yna rai arbedion ond, ar y llaw arall, fe fyddai yna gostau ychwanegol hefyd oherwydd byddai'n rhaid talu i'r trosglwyddyddion gael eu haddasu. Nid oedd neb yn gwybod beth fyddai lefel cost hyn.

Ychwanegodd Elan Closs Stephens mai un o'r problemau gyda diffodd analog oedd y byddai S4C yn colli rhaglenni Channel 4 gyda'r posibilrwydd y byddai'r incwm hysbysebu yn gostwng oherwydd hyn. Er hynny, gobeithiwyd y byddai sianel uniaith Gymraeg yn rhywbeth a fyddai'n cael ei weld yn fwy a mwy diddorol.

Mynegwyd pryder y byddai safon rhaglenni S4C yn gostwng wrth iddi golli arian hysbysebu. Ymatebodd Huw Jones drwy ddweud bod y sefyllfa ariannol yn fater yr oedd y Sianel yn trafod yn barhaol gyda'r Adran dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon. Yr oedd S4C wrthi ar hyn o bryd yn cyflwyno dadl am yr angen am fwy o adnoddau.

## **Rhaglenni Dogfen**

Awgrymwyd bod rhaglenni dogfen S4C mewn sefyllfa fregus. Atebodd Huw Jones drwy ddweud bod rhaglenni dogfen yn rhai drud i'w cynhyrchu. Er hynny, yr oedd S4C yn ymateb i'r her yma drwy ffurfio partneriaethau gyda gwledydd eraill er mwyn rhannu'r gost. Dros y blynyddoedd yr oedd S4C darganfod mai'r ffordd ymlaen iddi hi yn hyn oedd i sicrhau bod modd cael cyflwynwyr oedd yn gallu siarad Cymraeg – roedd *Y Normaniaid* yn esiampl o hyn. Roedd Huw Jones yn ffyddiog y byddai rhaglenni fel hyn yn parhau ac yr oedd, er enghraifft, rhaglen ar Tseina newydd gael ei chytuno.

Nodwyd yr hyn a ddywedwyd a holwyd a fyddai rhaglenni o'r fath ar gael ar DVD. Atebwyd nad oedd y rhain ar gael ar hyn o bryd, er bod nifer o raglenni wedi'u rhoi ar VHS dros y blynyddoedd. Yr oedd S4C wedi dechrau yn ddiweddar iawn i roi rhaglenni ar DVD (e.e. *Sali Mali*) ac yn sicr DVD oedd y dyfodol – er hynny, byddai'n rhaid i S4C wybod y byddai unrhyw beth y byddai'n rhoi ar DVD yn medru talu am ei hun.

## **Derbyn Teledu Digidol**

Gwnaethpwyd y pwynt nad oedd pobl yn y Rhondda yn gallu derbyn Freeview. Ymatebodd Huw Jones trwy ddweud bod Sky o fewn y pythefnos diwethaf wedi cyflwyno cynllun lle'r oedd modd cael blwch am £150. Yna byddai modd gofyn am gerdyn a fyddai'n ddilys am dair blynedd lle gellir derbyn y gwasanaethau 'free to air'.

## **Y Penwythnosau**

Holwyd paham nad oedd S4C yn darlledu yn Gymraeg ar fore Sadwrn a Sul. Awgrymwyd bod S4C yn colli cyfle fan hyn gan nad oedd safon y rhaglenni ar BBC1 a ITV yn arbennig o dda. Yr oedd yna gyfle i gael gafael ar bobl ifanc a fyddai'n wylwyr y dyfodol. Cydnabuodd Huw Jones y pwynt a wnaethpwyd a chadarnhaodd y byddai ddarlledu ar fore dydd Sadwrn yn un o'r blaenoriaethau i S4C pan fyddai'n gallu ariannu hyn.

\*\*\*\*\*

## **CYFARFOD BUSNES – 29 HYDREF 2004 – Y FFATRI BOP, PORTH, RHONDDA**

### **Croeso**

Estynnwyd croeso cynnes i Winston Roddick i'w gyfarfod cyntaf fel Aelod o'r Awdurdod. Croesawyd hefyd Nerys Hopkins, Ysgrifennydd newydd Awdurdod S4C. Yr oedd hi wedi'i phenodi ers cyfarfod diwethaf yr Awdurdod ac eisoes wedi dechrau ar ei swydd. Bu Nerys Hopkins yn gyfreithwraig i S4C Masnachol.

### **Cydymdeimlad**

Mynegwyd tristwch mawr parthed y newyddion pythefnos ynghynt, fod Andrew O'Neill, cyn-Gomisynydd Cerddoriaeth S4C, wedi marw a hynny yn ifanc iawn yn 46 oed. Fe gynhaliwyd angladd teilwng iawn lle bu nifer fawr o bobl o'r byd cerddorol a darlledu'n bresennol

### ***Pobol y Cwm***

Cyfeiriwyd at y dathliadau parthed penblwydd *Pobol y Cwm* yn 30 oed. Yn benodol, diolchwyd i Aled Wyn Phillips yn yr Adran Farchnata am ei holl waith caled wrth gynorthwyo gyda'r trefniadau ar gyfer y noson a gynhaliodd yr RTS i nodi'r achlysur.

### **Pwyllgor Diwylliant y Cynulliad**

Trafodwyd ymddangosiad y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr gerbron y Pwyllgor Diwylliant wrth iddo ystyried materion yn ymwneud â darlledu.

### **Diwrnod i Ffwrdd yr Awdurdod - 8/9 Tachwedd**

Amlinellodd y Cadeirydd yr hyn y dymunodd i'r cyfarfod arbennig hwn ganolbwyntio arno, sef, ymateb i Adroddiad Laughton; ymateb i gyfnod 2 adolygiad darlledu cyhoeddus Ofcom; a strategaeth S4C tuag at y dydd pan fyddai analog yn cael ei ddiffodd.

## **Noson Gwylwyr/Cyfarfod yr Awdurdod - Mis Tachwedd**

Adroddwyd y byddai'r Noson Gwylwyr ym mis Tachwedd yn cael ei gynnal yng Nghrymmych, gyda chyfarfod yr Awdurdod y diwrnod canlynol yn cael ei gynnal yn Llechryd.

## **Cynhyrchwyr Annibynnol**

Adroddwyd bod seminar da iawn wedi'i gynnal gyda'r cynhyrchwyr annibynnol ar 13 Hydref.

## **Diffodd Analog**

Adroddodd y Prif Weithredwr ar y sefyllfa ddiweddaraf parthed safon dechnegol y lluniau o dan y model gwreiddiol ar gyfer symud S4C i blethiad arall. Roedd y sefyllfa hwn bellach wedi'i ddatrys a roedd y lluniau nawr o safon dderbyniol.

## **Adolygiad Gweithgareddau Masnachol**

Trafodwyd y gwaith pellach wedi'i wneud ar yr adolygiad o weithgareddau masnachol S4C.

## **Sianel i Blant**

Rhoddodd Siwan Jobbins, y Comisiynydd Rhaglenni Plant, gyflwyniad i'r Awdurdod yn esbonio'r cynlluniau mewn llaw ar gyfer ehangu gwasanaeth rhaglenni S4C ar gyfer plant. Yn benodol, cyfeiriodd at lawns brand newydd ar 28 Mawrth, pan fyddai 'Planed Plant' a 'Planed Plant Bach' yn diflannu. Y bwriad fyddai i ddarlledu, ar S4C Digidol, bloc o dair awr rhwng 4pm-7pm (er, fe fyddai'n rhaid darlledu *Pobol y Cwm* yng nghanol hyn – am 6.00pm - am y tro). Nid oedd enw wedi'i gytuno hyd yn hyn ar gyfer y gwasanaeth newydd wedd hwn, a chytunodd yr Aelodau y byddai darganfod enw newydd a fyddai'n taro deuddeg gyda phlant yn bwysig iawn yn nhermau eu denu i mewn i'r gwasanaeth. Soniwyd hefyd y byddai'n bwysig i sefydlu sut y byddai llwyddiant yn cael ei mesur. Cyfeiriwyd hefyd at y gobaith i ehangu'r gwasanaeth ymhellach lle, ymhen pum mlynedd, byddai modd darlledu gwasanaeth i blant am ddeuddeg awr y diwrnod.

## **Canllawiau Diogelu Plant yn ystod y Broses Gynhyrchu**

Cyflwynwyd i'r Awdurdod bolisi drafft ar gyfer amddiffyn plant yn ystod y broses gynhyrchu. Roedd y drafft wedi ei gyflwyno at y Comisiynydd Plant gan ofyn iddo am sylwadau. Yn yr un modd gwahoddwyd Aelodau'r Awdurdod i roi eu sylwadau nhw ar y ddogfen. Byddai drafft terfynol o'r ddogfen bolisi yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod unwaith bod yr holl sylwadau wedi'u derbyn (mwy na thebyg yn y flwyddyn newydd).

## **Monitro'r Cynllun Corfforaethol 2004-06**

Nodwyd bod y mwyafrif o'r targedau ar gyfer y flwyddyn yn cael eu cwrdd. Nodwyd hefyd mai dyma'r adroddiad monitro olaf fyddai'n cael ei ystyried gan yr Aelodau cyn i'r Cynllun Corfforaethol drafft ar gyfer y flwyddyn nesaf ddod gerbron yr Awdurdod (ym mis Tachwedd). Byddai angen ystyried pryd hynny a oedd yr amcanion wedi'u gosod o fewn y ddogfen honno yn dal i fod yn rhai priodol a pherthnasol ar gyfer y cyfnod nesaf.

## **Adroddiad Cydymffurfiaeth**

Nododd yr Awdurdod gynnwys adroddiad y Grwp Cydymffurfiaeth yn dilyn ei gyfarfod ar 8 Hydref, gan gynnwys yr adroddiad atodol oedd yn adrodd ar yr etholiadau i Senedd Ewrop. Wrth ystyried materion cydymffurfiaeth, cyfeiriwyd at adroddiad y Wifren Gwylwyr ymhlith y papurau 'er gwybodaeth' a holwyd pa sustem oedd mewn lle i sicrhau bod cwynion yn cael eu dilyn i fyny. Adroddodd yr Ysgrifennydd fod yr Adran Gyfreithiol, fel yr oedd hi'n digwydd, yng nghanol adolygu sustem gwynion ar gyfer S4C a gobeithiwyd y byddai argymhellion ar gael erbyn y Flwyddyn Newydd.

## **Trafodaeth ar Darlledu gyda Chris Bryant, AS**

Croesawyd Chris Bryant, yr Aelod Seneddol dros Y Rhondda a gwleidydd oedd hefyd ar Bwyllgor Diwylliant y Senedd yn San Steffan ac yn ymddiddori mewn materion yn ymwneud â darlledu. Pwrpas presenoldeb yr Aelod Seneddol oedd i drafod dyfodol y byd darlledu, yn arbennig felly darlledu Cymreig a Chymraeg.

## **Materion Eraill**

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad y Prif Weithredwr – Materion er gwybodaeth
- Adroddiad Cwynion
- Adroddiad a Chofnodion cyfarfod y Grwp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd 10 Medi 2004
- Adroddiad Gwifren Gwylwyr
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Rhaglenni
- Adroddiad Ariannol
- Cynllun Pensiwn Ofcom
- Adroddiad Rheolwyr Gyfarwyddwr S4C Masnachol.